# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Sara Jones** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn rithiol ar Zoom.
**Nos Iau 19 Mawrth 2026 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Mair Pierce
Y Cynghorydd Sian Bedias
Y Cynghorydd John Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Bethan Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones

1. **Croeso:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mary Hayes

   **Ymddiheuriadau** gan y Cynghorydd Iwan Hywel, Anwen Jones

2. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 o Chwefror 2026.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

**3.1 Mynedfa Lôn Las Ogwen ger Modurdy Pandy**:
Heb cael ymateb eto.
**3.2 Pecyn Budd Cymunedol Zip World**:
Dal i ddisgwyl ymateb.
**3.3 Parcio ar Lôn Dinas (ger yr A5)**:
Dal i ddisgwl ymateb gan CG.
**3.4 Parc y Bwlch, Mynydd Llandygai** – Mae'r Clerc wedi gofyn i CNC am ddiweddariad. Cafwyd ymateb gan Kath McNulty o CNC ynglŷn â'r camau nesaf; y Clerc i ddiolch iddi am ei gwaith ar y prosiect.
**3.5 Defnydd o chwynladdwyr, Braichtalog** – Y clerc i siarad efo adran amgylchedd CG ac Steffan Jones am diweddariad.

**4. Gohebiaeth**
Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2026'
**4.1 Simon Roberts, YGC – Cynllun Lliniaru Mynydd Llandygai**
Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Neuadd Goffa Llandygai i'r cyhoedd er mwyn trafod y cynllun.
Y Clerc i ofyn i YGC ddod i gyfarfod y mis nesaf.

**4.2 Canolfan Tregarth**
Y Clerc i ofyn i Mark Hughes am gyfarfod i drafod diweddariad ar y cynllun.
**4.3 Lwfans Blynyddol**
Pawb i lenwi'r ffurflen lwfans cyn diwedd mis Mawrth

**5. Ymgeisydd am Sedd Wag y Cyngor:**
Mae'r Clerc wedi darllen y ddau gais i'r cynghorwyr. Penderfynodd y cynghorwyr ohirio'r bleidlais nes bydd cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal y mis nesaf. Y Clerc i ofyn i'r ymgeiswyr a ydynt wedi cofrestru i bleidleisio.

**6. Gorchmynion Traffig Dros Dro**
Cododd y Cyng. Iwan Hywel bwynt bod y gwaith ar y ffyrdd yn cael gormod o ryddid o ran yr amser a roddir i gau'r ffyrdd, a bod angen sicrhau bod y briffordd yn cyfathrebu'n effeithiol gyda chwmnïau bysiau ac ati. Y Clerc i wneud ymholiadau.

**7. Gwaith y Mis**
Gareth Williams – Lon y Grug yn cael i chau yn fuan i gwneud gwaith arni. Gareth i anfon e-bost.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**
Bethan Roberts – Bethan wedi mynychu cyfarfod Caffi Ieuienctid Dyffryn Ogwen, mae'r fenter angen llawer o wirfoddolwyr, lot o waith dal angen ei wneud. Gobeithio cael fwy o wybodaeth yn fuan.

**11. Taliadau**
Y Cyngor yn derbyn y taliadau mis yma:

| Talai | Manylion | Swm |
|---|---|---|
| Un Llais Cymru | Aelodaeth blynyddol | £499 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieuthu ac trafeilio i cyfarfod | £223.56 |
| Huw Jones | Padiau Ciciwr Calon | £162 |
| Zurich | Premiwm adnewyddu yswiriant | £575.83 |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

**C26/0142/16/LL**
The Store, Tregarth, Bangor. Cais i addasu llawer gwaelod yn ôl i siop wreiddiol.
**Penderfyniad:** Cefnogi – Y Clerc wedi ysgrifennu llythyr o cefnogaeth

**C24/0219/16/LL**
Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai
Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0258/16/DT**
19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai
Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0711/16/LL**
Tanysgafell Isaf, Coed y Parc

| | |
|---|---|
| | Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**12. Penderfyniadau Cynllunio'r Cyngor Sir**

| | |
|---|---|
| **C24/0801/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C24/0847/16/DT** | 4, Fron Ogwen, Tregarth<br>Adeiladu ystafell ardd yng nghefn y tŷ yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach i'w defnyddio fel rhan atodol i'r tŷ annedd<br>**Penderfyniad:** Argymell gwrthod y cais, oherwydd mae tŷ gwyliau yw defnydd yr annedd ar hyn o bryd, felly nid 'ystafell ardd' fydd hwn, ond estyniad i'r tŷ gwyliau. Cymdogion lleol wedi cysylltu â'r Cyngor i godi eu pryderon ynglyn â problemau parcio a 'overlooking' i dai a gerddi cyfagos. |
| **C24/0878/16/HY** | Uned 7, Parc Bryn Cegin, , Llandygai<br>Gosod arwyddion wedi'u goleuo a heb eu goleuo<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C24/0982/16/LL** | Tanysgafell Isaf Tanysgafell, Coed Y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Argymell gwrthod, cyflwyno'r un sylwadau ag o'r blaen |

**13. Unrhyw fater brys arall**

**- Rhoddion 2026**

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Roedd rhaid blaenoriaethu'r ceisiadau gan fudiadau lleol oherwydd sefyllfa ariannol presennol y Cyngor. Penderfynwyd y symiau isod i pob mudiad:

| **Enw** | **Swm** | **Datgan diddordeb** |
|---|---|---|
| Llais Ogwan | £300 | Dafydd O |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150 | Dafydd R |
| Hwb Ogwen | £150 | |
| Sefydliad y Merched Carneddi | £150 | |

| | | |
|---|---|---|
| Carnifal Bethesda | £200 | Bethan R |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £50 | |
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | £200 | |
| Growing for Change (MOELYCI) | £150 | |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £150 | |
| **Cyfanswm** | £1,500 | |

**14. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd rhoid penderfyniadau rhoddion yn Llais Ogwan.